



Cynllun Sychder 2015

Crynodeb Gweithredol

Gorffennaf 2015



CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad

Cwmni cyflenwi dŵr yn unig yw Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, sy'n darparu 64 miliwn litr o ddŵr y dydd i boblogaeth o dros chwarter miliwn yn ardal Gogledd-ddwyrain Cymru a Chaer. Mae gennym 112,000 o gwsmeriaid domestig ac 8,000 o gwsmeriaid busnes. Ni yw'r lleiaf o'r cwmnïau dŵr sy'n gweithredu ers preifateiddio'r diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr ym 1989.

Ein nod yw sicrhau cyflenwad cyson o ddŵr iach sy'n cynnig gwerth da am arian i'n cwsmeriaid o dan amodau arferol ac yn ystod adegau o sychder fel ei gilydd. Dyna yw ein dyletswydd statudol a dyna hefyd, yn ôl ein hymchwil, mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.

Fel cwmni dŵr mae'n ofynnol o dan y gyfraith i ni lunio Cynllun Sychder. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys ymgynghori â'n cwsmeriaid a'r prif randdeiliaid eraill ynghylch y ffordd y bwriadwn reoli'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu yn ystod cyfnod o sychder.

Tuag at ddiwedd 2013 cynaliasom broses cyn ymgynghori gyda'n prif randdeiliaid i'w holi ynghylch eu barn am ein Cynllun blaenorol fel y gallem ddefnyddio'u hatebion i lywio a gwella ein Cynllun Sychder newydd. Yn dilyn y broses honno, lluniasom Gynllun Sychder drafft gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a dderbyniwyd.

Cyhoeddwyd ein Cynllun Sychder drafft ar ein gwefan fis Medi 2014 ar gyfer ymgynghori pellach. Y tro hwn, roedd y broses ymgynghori'n llawer ehangach ac anfonwyd cyfres o negeseuon e-bost a llythyrau'n gofyn i 119 o gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill adolygu'n Cynllun a gwneud sylwadau. Gwelir rhestr gyflawn o'r rhanddeiliaid y cysylltwyd â hwy yn Atodiad A – Rhestr Ymgynghoreion.

Yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniasom wrth ymgynghori, rydym bellach wedi gwneud rhai newidiadau ac wedi ailgyhoeddi'n Cynllun Sychder. Rydym hefyd wedi cyhoeddi rhestr o'r ymatebion a dderbyniwyd ynghyd â'n hymateb iddynt. Diben yr holl newidiadau a wnaethom yw gwneud y Cynllun yn fwy manwl ac eglur ac nid yw'r un ohonynt yn effeithio ar weithrediad y Cynllun. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi rhoi eu caniatâd i ni gyhoeddi ein Cynllun Sychder terfynol ynghyd â'r dogfennau atodol.

Mae'r adrannau isod yn cynnig trosolwg o'r ffordd yr ydym yn bwriadu rheoli ein cyflenwadau dŵr yn ystod cyfnod o sychder a'r ffordd y byddwn yn cyfathrebu â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ynghylch y broses honno.

Newidiadau ers y Cynllun Sychder diwethaf

Gwnaed nifer o welliannau i'r Cynllun Sychder hwn i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol a ddigwyddodd ers llunio'r Cynllun blaenorol, ac er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau a'r codau ymarfer diweddaraf. Ymhlith y newidiadau hynny mae:

- O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, cafodd Deddf y Diwydiant Dŵr ei diwygio i roi pwerau ehangach a mwy pellgyrhaeddol i'r cwmnïau dŵr i gyfyngu ar y defnydd o ddŵr pan fo angen drwy ddefnyddio Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro. Defnyddir Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro yn lle'r hyn a adwaenid fel '*gwaharddiadau defnyddio pibau dyfrhau*' i ganiatáu i gwmnïau dŵr osod cyfyngiadau dros dro ar y defnydd o ddŵr heb fod angen Gorchymyn Sychder. O fewn ein Cynllun rydym yn egluro sut y bwriadwn ddefnyddio'r pwerau hynny mewn cyfnod o sychder a sut y bydd hynny'n effeithio ar ein cwsmeriaid. Rydym hefyd wedi egluro ymhellach y gwahaniaethau rhwng Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro a '*gwaharddiadau defnyddio pibau dyfrhau*'.
- Gwella ein Cynllun Cyfathrebu arfaethedig. Mae hwnnw'n amlinellu'r ffordd y byddwn yn cyfathrebu â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn ystod cyfnod o sychder.
- Cynnwys Adroddiad Sgrinio Asesiad Effaith Amgylcheddol Strategol ac Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i nodi'r effeithiau andwyol posibl ar yr amgylchedd a allai ddod o weithredu'r dewisiadau ymateb i sychder rydym wedi'u hystyried.

Rydym hefyd wedi ehangu'r Crynodeb Gweithredol hwn i wneud ein Cynllun Sychder yn ddealladwy i gynulleidfa ehangach.

Trothwyon Sychder

Mae trothwyon sychder yn dangos pan fydd sychder yn datblygu ac fe'u defnyddir fel camau ar gyfer gwneud penderfyniadau i gynorthwyo gyda rheoli sychder. Mae'r trothwyon sychder ar gyfer Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn dibynnu ar faint o ddŵr sydd yn System Storio Afon Dyfrdwy gan mai Afon Dyfrdwy yw ein prif ffynhonnell ddŵr. Golyga hynny fod y rhan fwyaf o'n camau gweithredu rheoli sychder yn deillio o Gyfarwyddiadau Cyffredinol Afon Dyfrdwy sy'n rheoli System Storio Afon Dyfrdwy.

Afon Dyfrdwy sy'n darparu 87% o'r dŵr sydd ei angen arnom, gyda'r gweddill yn dod o gronfeydd yn yr ucheldir a ffynonellau dŵr daear. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoleiddio Afon Dyfrdwy gan ddefnyddio cronfeydd ym mryniau Cymru'n unol â Chyfarwyddiadau Cyffredinol Afon Dyfrdwy¹. Adeg cyfnodau o sychder difrifol, mae'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol yn diffinio'r trothwyon sychder a'r camau mae'n ofynnol i ni eu cymryd mewn ymateb i'r trothwyon hynny. Mae'r trothwyon yn gysylltiedig â faint o ddŵr sydd ar gael yn System Storio Afon Dyfrdwy. Fel y bydd y cyflenwad yn lleihau, croesir y trothwyon gan ysgogi camau gweithredu rheoli sychder.

¹ Mae'r Cyfarwyddiadau'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth Pwyllgor Ymgynghorol Afon Dyfrdwy sy'n cynnwys cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, United Utilities, Dŵr Cymru, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy a Dyfrffyrdd Prydain.

Nid oes gennym unrhyw drothwyon sychder yn gysylltiedig â'n cronfeydd yn yr ucheldir a'n ffynonellau dŵr daear gan nad ydynt ond yn cyfrannu ychydig at y cyflenwad cyfan. O'r herwydd, nid ydym yn rhagweld sefyllfa pan fyddai angen i ni gymryd camau rheoli sychder oherwydd prinder dŵr yn y ffynonellau hyn.

Dangosir y trothwyon sychder a'r camau sy'n gysylltiedig â'r trothwyon hynny yn y tabl ar ddiwedd yr adran hon.

Camau gweithredu rheoli sychder

Rhennir camau gweithredu rheoli sychder yn gamau sy'n ymwneud â'r galw am ddŵr a chamau sy'n ymwneud â'r cyflenwad, gyda'r trothwyon a drafodwyd uchod yn penderfynu pryd y cymerir y camau hynny. Mae camau sy'n ymwneud â'r galw'n canolbwyntio ar leihau'r galw am ddŵr sy'n deillio o'n gweithgareddau ninnau neu o'r defnydd o ddŵr gan ein cwsmeriaid. Mae camau sy'n ymwneud â'r cyflenwad yn cynyddu argaeledd dŵr.

Ar gyfer camau sy'n ymwneud â'r galw, byddwn yn cysylltu â'n cwsmeriaid yn brydlon wrth i sychder ddatblygu, gan wneud rhagor i hybu defnyddio dŵr yn effeithlon.

Rydym yn cydnabod, os ydym yn disgwyl i'n cwsmeriaid gwtogi ar y dŵr maent yn ei ddefnyddio, y dylem ninnau wneud ymdrechion tebyg i leihau'n lefel gollyngiadau. Byddwn yn gwneud hynny drwy gynyddu'n gweithgareddau canfod a thrin gollyngiadau.

Wrth i'r sychder ddwysáu, mae'n bosibl y bydd angen i ni gyflwyno Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro ac yn y pen draw wneud cais am Orchmynion Sychder mewn sefyllfaoedd eithafol.

Effaith pennaf Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro yw cyfyngu ar ddefnydd ein cwsmeriaid domestig o ddŵr drwy wahardd defnyddio pibau dyfrhau a thaenellwyr ac maent ymhlith y camau sy'n ymwneud â'r galw mwyaf effeithiol ac arwyddocaol sydd ar gael i ni. Cyn cyflwyno Gwaharddiad Defnydd Dros Dro byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth yn hysbysu ynghylch y camau arfaethedig mewn o leiaf ddau bapur newydd a ddsberthir yn yr ardal leol ac ar ein gwefan. Bydd yr hysbysiadau hynny'n rhan o strategaeth gyfathrebu ehangach.

Rhestrir y gweithgareddau a waherddir o dan Waharddiad Defnydd Dros Dro yn Adran 36 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Y gweithgareddau hynny yw:

- Dyfrhau gardd gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Glanhau cerbyd modur preifat gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Dyfrhau planhigion ar safle domestig neu safle anfasnachol arall gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Glanhau cwch hamdden preifat gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Llenwi pwll nofio neu badlo domestig neu wneud gwaith cynnal a chadw ar bwl o'r fath gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Tynnu dŵr ar gyfer defnydd hamdden domestig gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Llenwi pwll domestig neu wneud gwaith cynnal a chadw arno gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Llenwi ffynnon addurniadol neu wneud gwaith cynnal a chadw arni

- Glanhau waliau neu ffenestri safle domestig gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Glanhau llwybrau neu batios gan ddefnyddio piben ddyfrhau
- Glanhau wynebau awyr agored artiffisial eraill gan ddefnyddio piben ddyfrhau

Er mwyn osgoi peri unrhyw ddryswch i'n cwsmeriaid, gwaherddir yr un gweithgaredd ar ddeg uchod i gyd mewn un cam.

Caniateir eithriadau i Waharddiadau Defnydd Dros Dro yn unol â'r Cod Ymarfer² ac mae tri chategori ohonynt, sef:

- Eithriadau Statudol – Nodir y rhain mewn deddfwriaeth ac maent yn seiliedig ar iechyd a diogelwch, effaith ar yr amgylchedd neu effaith ar fusnesau.
- Eithriadau Cyffredinol yn ôl Disgresiwn – Mae'r rhain yn gyffredin i'r holl gwmnïau dŵr ac yn ymwneud yn bennaf â deiliaid Bathodyn Glas.
- Eithriadau Consesiynol yn ôl Disgresiwn – Gall cwmnïau dŵr unigol ganiatáu'r rhain ar gais. Mae'r holl eithriadau'n ddarostyngedig i'n disgresiwn ninnau ac ni chaniateir eithriad oni bai fod hynny er budd pennaf y gymuned. Byddwn yn ystyried caniatáu eithriadau i gwsmeriaid sydd ar Restr Cwsmeriaid sy'n Agored i Niwed y cwmni, Rhestr DŵrSiŵr a'r rhai sydd â phroblemau symudedd ond nad ydynt yn berchen ar Fathodyn Glas. Bydd angen i gwsmeriaid ysgrifennu at gwmni Dŵr Dyffryn Dyfrdwy i ofyn am ganiatáu eithriad. Gwelir ffurflen gwneud cais am eithriad yn Atodiad H - Ffurflen Eithriad Defnyddio Dŵr Dros Dro. Ceir rhagor o fanylion ynghylch sut i wneud cais yn adran 3.3.5.

Er nad oes trefn ffurfiol ar gyfer gwrthwynebu cyfyngiadau o dan Waharddiad Defnydd Dros Dro, dim ond o dan amgylchiadau eithafol iawn y byddwn yn cyflwyno'r mesurau hyn, pan fo hynny er budd pennaf y cwsmeriaid a'r amgylchedd fel ei gilydd. Mae'n bosibl gwrthwynebu drwy ofyn am adolygiad barnwrol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol.

Gorchymyn Sychder yw un o'r camau sy'n ymwneud â'r galw mwyaf eithafol sydd ar gael i ni. Nod Gorchymyn Sychder yw ymestyn cyfyngiadau sy'n bod eisoes o dan Waharddiad Defnydd Dros Dro i gwsmeriaid heblaw rhai domestig. Er mwyn cyflwyno Gorchymyn Sychder, bydd raid i ni yn y lle cyntaf wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i Lywodraeth Cymru, a gall hynny fod yn broses hir.

O safbwynt camau sy'n ymwneud â'r cyflenwad, dim ond un sydd ar gael i ni, sef ychwanegu dŵr o'n cronfa ym Mhen-y-cae at gyflenwad Afon Dyfrdwy. Cyfarwyddiadau Cyffredinol Afon Dyfrdwy fydd yn penderfynu faint o ddŵr gaiff ei drosglwyddo i Afon Dyfrdwy, yn ddibynnol ar ba drothwy fydd wedi'i groesi.

Gorfodi Gwaharddiad Defnydd Dros Dro neu Orchymyn Sychder

Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991 yn nodi y gellir dirwyo unrhyw un a geir yn euog o dorri Gwaharddiad Defnydd Dros Dro hyd at Lefel 3 (sef £1000 yn ôl y raddfa dirwyon ar gyfer troseddau diannod fel y'i nodir yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1982, Adran 32). Gellir dirwyo troseddwr sy'n torri cyfyngiad

² United Kingdom Water Industry Research (UKWIR) 'Code of Practice and General Guidance on Water Use Restrictions'

dan Orchymyn Sychder hyd at yr uchafswm statudol (sef hyd at £5000). Bydd troseddwr a gollfernir ar ddiad yn agored i ddirwy anghyfyngedig.³

Strategaeth Gyfathrebu

Rhan hanfodol o'r Cynllun Sychder yw'r strategaeth gyfathrebu y bwriadwn ei dilyn yn achos sychder. Gall cyfathrebu effeithiol fod o gymorth i leihau'r galw am ddŵr gan gwsmeriaid, i sicrhau bod mwy o ddŵr ar gael i'w gyflenwi, i leihau'r effaith ar yr amgylchedd ac i osgoi dryswch ynghylch pa weithgareddau yr effeithir arnynt gan gyfyngiadau defnyddio dŵr.

Os bydd sychder yn datblygu, byddwn yn sefydlu strwythur rheoli i sicrhau gweithredu'r Cynllun Sychder, gan gynnwys y strategaeth gyfathrebu, yn effeithiol. Aelod allweddol o'r strwythur rheoli fydd y cydgysylltydd cyfathrebu, a fydd yn gyfrifol am sicrhau cyfathrebu ar yr adegau priodol â'r rhanddeiliaid perthnasol gan ddefnyddio dulliau addas.

Ar gyfer cwsmeriaid domestig a chwsmeriaid busnes, byddwn yn cyfathrebu fel arfer drwy hysbysebion yn y wasg ac ar y radio a'r teledu, a thrwy ein canolfan alwadau i gwsmeriaid, bwletinâu ar ein gwefan, digwyddiadau hyrwyddo, negeseuon testun, taflenni a phosteri. Mae gennym sianel gyfathrebu ychwanegol â'n cwsmeriaid masnachol mwyaf drwy eu rheolwyr cyfrifon. Bydd cwsmeriaid y nodwyd eu bod yn agored i niwed neu sydd ar restr DŵrSiŵr hefyd yn derbyn pecyn gwybodaeth. Cyn cyfathrebu â'n cwsmeriaid domestig a masnachol byddwn yn cysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, sef y corff cynrychioli annibynnol i gwsmeriaid.

Byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid eraill, megis cyrff rheoleiddio, grwpiau amgylcheddol a chynrychiolwyr lleol, drwy gyfrwng llythyrau, negeseuon e-bost neu sgysiau ffôn.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn crynhoi'r prif negeseuon cyfathrebu y byddwn yn eu hanfon pan ddigwydd sychder ac yn dangos cyswllt y rheini â'r trothwyon sychder a'r camau gweithredu cysylltiedig.

Gweithredu yn dilyn cyfnod o sychder

Diddymir Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro pan fydd yr adnoddau dŵr wedi dychwelyd i'w lefelau arferol. Er mwyn penderfynu hynny, byddwn yn cymryd i ystyriaeth lefel wirioneddol yr adnoddau a'r tywydd ar y pryd a rhagolygon y tywydd.

Yn yr un modd ag y gwneir wrth gyflwyno cyfyngiadau, byddwn yn hysbysu ynghylch codi'r gwaharddiadau ar ein gwefan ac mewn dau bapur newydd lleol yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Byddwn wedyn yn cynnal adolygiad yn dilyn sychder i weld pa mor effeithiol fu'r Cynllun Sychder, i nodi'r gwersi a ddysgwyd ac i benderfynu ar newidiadau er gwell i'r dyfodol.

³ O ddogfen UKWIR 'Code of Practice and General Guidance on Water Use Restrictions'.

Statws	Trothwy	Camau gweithredu	Cyfathrebu
Arferol	System Storio Afon Dyfrdwy ym Mharth 1	Cyfyngu ar dynnu dŵr ond gan amodau trwyddedu / Diddymu cyfyngiadau os doir i'r parth hwn ar ôl cyfnod o sychder.	<p>Prif neges: Defnyddiwch ddŵr yn ddarbodus</p> <p>Gweithgareddau arferol hybu defnyddio dŵr yn effeithlon a rheoli gollyngiadau. Mae hybu defnyddio dŵr yn effeithlon yn cynnwys: gosod dyfeisiadau dadleoli dŵr mewn sestonau, treulio llai o amser yn y gawod, cau'r tap wrth frwsio dannedd ac ati.</p>
	Trothwy 1 – System Storio Afon Dyfrdwy'n croesi Llinell Cynnyrch Diogel y System	Ni chaniateir tynnu dŵr y tu hwnt i'r Dyranïad Cynnyrch Diogel.	
Sychder yn Datblygu	Trothwy 2 - System Storio Afon Dyfrdwy'n croesi Cromlin Rheol Arbed Dŵr y System	Rhaid I Bwyllgor Ymgynghorol Afon Dyfrdwy gyfarfod o fewn saith niwrnod i drafod gweithredu Cyfarwyddiadau Cyffredinol Sychder Cam 1.	
Sychder	Trothwy 3 - System Storio Afon Dyfrdwy'n croesi Cromlin Gweithredu Cam 1	<p>Lleihau tynnu dŵr o 0.4MI/d net drwy ychwanegu dŵr o Gronfa Pen-y-cae at Afon Dyfrdwy.</p> <p>Pwyllgor Ymgynghorol Afon Dyfrdwy'n cyfarfod o fewn saith niwrnod i drafod gweithredu Cyfarwyddiadau Cyffredinol Sychder Cam 2.</p> <p>Cynyddu gweithgareddau rheoli gollyngiadau.</p>	<p>Prif neges: peidiwch â gwastraffu dŵr</p> <p>Cynyddu gweithgareddau arferol hybu defnyddio dŵr yn effeithlon â'n cwsmeriaid gan ddefnyddio'r wefan a hysbysebion.</p> <p>Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith aelodau staff mewnol.</p> <p>Cysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, WaterWise a WaterUK i sicrhau gweithredu strategaeth ar y cyd.</p> <p>Cysylltu â rhanddeiliaid eraill i drafod y sefyllfa sychder.</p>
Sychder Mawr	Trothwy 4 - System Storio Afon Dyfrdwy'n croesi Cromlin Gweithredu Cam 2	<p>Lleihau tynnu dŵr o 0.8MI/d net drwy ychwanegu dŵr o Gronfa Pen-y-cae at Afon Dyfrdwy.</p> <p>Pwyllgor Ymgynghorol Afon Dyfrdwy'n cyfarfod i drafod gweithredu Cyfarwyddiadau Cyffredinol Sychder Cam 3.</p> <p>Cynllunio ar gyfer cyflwyno Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro.</p>	<p>Prif neges: Cyfyngiadau gwirfoddol a Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro</p> <p>Hysbysebu cyfyngiadau gwirfoddol a chyhoeddi bwriad i gyflwyno Gwaharddiad Defnydd Dros Dro gan ddefnyddio'r wefan a hysbysebion mewn papur newydd lleol ac ar y radio a'r teledu.</p> <p>Sicrhau bod aelodau staff mewnol yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf.</p> <p>Parhau mewn cysylltiad â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, WaterWise a WaterUK.</p> <p>Cyfarfod â chyrrff rheoleiddio a rhanddeiliaid eraill i sicrhau rhybuddion cryfach ynghylch y sychder.</p>
	Trothwy 5 - System Storio Afon Dyfrdwy'n croesi Cromlin Gweithredu Cam 3	<p>Cyflwyno a gorfodi Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro.</p> <p>Ceisio Gorchmynion Sychder.</p> <p>Gweithredu Gorchmynion Sychder.</p>	<p>Prif neges: Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro a Gorchmynion Sychder</p> <p>Hysbysu gweithredu Gwaharddiadau Defnydd Dros Dro a Gorchmynion Sychder gan ddefnyddio'r wefan a hysbysebion mewn papur newydd lleol ac ar y radio a'r teledu.</p> <p>Sicrhau bod aelodau staff mewnol yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf.</p> <p>Parhau mewn cysylltiad â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, WaterWise a WaterUK.</p> <p>Cyfarfod â chyrrff rheoleiddio a rhanddeiliaid eraill i sicrhau cyhoeddi rhybuddion cryfach ynghylch y sychder.</p>